Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Cylch Meithrin Yr Eglwys Newydd

**Neuadd y Sgowtiaid**
**Heol Penlline**
**Yr Eglwys Newydd**
**Caerdydd**
**CF14 2AD**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2012**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrau Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 07/08/2012**

## Ynglŷn â’r cylch

Mae Cylch Meithrin Yr Eglwys Newydd yn gylch cyfrwng Cymraeg sydd wedi’i leoli yn neuadd y sgowtiaid, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Daw’r holl blant sy’n mynychu’r cylch o’r pentref a’r ardal gyfagos. Cydnabyddir nad yw’r ardal yn freintiedig nac ychwaith dan anfantais gymdeithasol neu economaidd.

Mae’r cylch wedi bod yn yr adeilad yma ers 2006. Mae’n rhannu’r defnydd o’r adeilad a rhan o’r ardal allanol gydag asiantaethau eraill.

Dywed y cylch daw tua traean o blant o gartrefi lle siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd. Mae’r plant yn cynrychioli’r ystod lawn o alluoedd ac mae’r cylch yn derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae dau blentyn yn y grŵp cyfredol wedi’i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r cylch yn derbyn cefnogaeth wrth asiantaethau allanol i gefnogi’r plant ag anghenion ychwanegol. Mae un plentyn o gefndir ethnig lleiafrifol ar hyn o bryd a daw neb o gartrefi sydd o dan anfantais gymdeithasol.

Mae’r cylch wedi ei gofrestru am uchafswm o 24 o blant ac yn derbyn plant o ddwy flwydd a hanner oed. Mae 42 o blant ar hyn o bryd yn mynychu’r cylch ar rhyw adeg o’r wythnos. Mae 22 ohonynt, sy’n cael i’w hariannu, yn dair blwydd oed. Mae’r Mudiad Meithrin a’r awdurdod lleol yn cefnogi’r cylch.

Mae’r cyd-arweinyddion yn ei swyddi ers mis Mawrth 2011. Mae pum aelod o staff yn eu cynorthwyo’n llawn amser neu ran amser. Mae ganddynt i gyd cymwysterau addas.

Ceir llyfryn llawn gwybodaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr, sy’n eu darparu â manylion am y cylch. Daw rhieni a gofalwyr â’u plant i mewn i’r cylch sy’n gyfle i gael cyfarfod â’r staff os oes angen. Mae’r cylch ar agor am bump bore’r wythnos rhwng 9.30yb a 12 hanner dydd. Ar hyn o bryd, mae’n agor am ddau brynhawn rhwng 12.45yp a 2.45yp.

Mae pwyllgor rheoli yn goruchwylio gwaith y cylch.

Arolygwyd y cylch diwethaf gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Ebrill 2010. Arolygwyd y cylch gan Estyn yn 2006.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y cylch | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r cylch | Da |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y cylch yn dda oherwydd:

- mae safonau'r plant yn dda;
- mae'r profiadau dysgu yn cael eu cynllunio'n dda;
- mae'r holl blant yn cael eu cefnogi'n dda ac yn elwa o gwricwlwm sy'n eang, cytbwys a diddorol;
- mae'r addysgu'n effeithiol ac yn canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen;
- mae bron pob un oedolyn yn siarad Cymraeg yn dda sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth gynnar y plant o'r iaith;
- mae'r arweinyddion yn arwain a rheoli'r cylch yn dda;
- mae perthynas bositif rhwng oedolion a phlant;
- mae cysylltiadau effeithiol gyda'r ysgol leol, y Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol; ac
- mae'r staff yn cyd-weithio'n effeithiol ac mae pawb yn cyfrannu'n bwrpasol i lwyddiant y cylch.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r cylch yn dda oherwydd:

- mae'r arweinyddion a'r staff yn darparu cyfeiriad clir i waith y cylch;
- dengys newidiadau a datblygiadau dros y flwyddyn ddiwethaf fod gan y cylch gofnod da o wella er lles y plant;
- mae'r pwyllgor rheoli yn monitro a herio'r arweinyddiaeth yn effeithiol;
- mae gan yr holl staff agweddau cadarnhaol a gweithredol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant; ac
- mae llinellau cymorth da yn cael eu defnyddio'n gyson.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r cylch:

A1 sicrhau fod asesiadau yn arwain yn uniongyrchol i dargedau plant unigol; a

A2 datblygu cynlluniau hir dymor effeithiol i dargedu gwelliannau tu fewn llinynnau amser priodol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y cylch yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae safonau dechreuol bron pob un plentyn wrth ddechrau'r cylch yn dda. Mae bron pob un plentyn yn cyflawni safonau da ac yn gwneud y cynnydd priodol ymhob maes dysgu wrth ystyried eu mannau cychwyn. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng safonau grwpiau gwahanol o blant yn y cylch.

Mae bron pob un plentyn yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn eu datblygiad o'u medrau llythrennedd yn yr iaith Gymraeg. Ychydig iawn o blant sy'n anfodlon i ddefnyddio'r Gymraeg ac mae bron pob un â dealltwriaeth dda o'r iaith. Mae gan bron pob un o'r plant fedrau gwrando sydd wedi'u datblygu'n dda. Mae bron pob un plentyn yn mwynhau clywed stori ac yn awyddus i gyfrannu i'r hyn a ddarllenir iddynt.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ateb cwestiynau yn frwdfrydig, sy'n dangos yn glir eu dealltwriaeth ddatblygol o'r iaith Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymateb yn synhwyrol i drafodaethau grŵp ac mae dealltwriaeth dda ganddynt o sut mae'r tywydd yn newid, nodweddion llawer o anifeiliaid a ble maent yn byw. Nodwedd nodedig arall o'u gallu cynyddol yw fod bron pob un plentyn yn trafod llythrennau, lliwiau a rhifau yn hyderus yn y Gymraeg.

Mae llawer o blant yn dewis edrych ar lyfrau yn annibynnol. Maent yn dal llyfrau yn briodol ac yn astudio lluniau a phrint gyda diddordeb. Maent yn adnabod prif gymeriadau mewn stori ac yn trafod cynnwys y stori yn frwdfrydig gyda'i gilydd ac oedolion.

Mae bron pob un plentyn yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu a nodwedd nodedig o'u hysgrifennu cynnar yw eu bod yn deall pwrpas ysgrifennu drwy gwblhau dasgau ymarferol yn llwyddiannus. Maent yn gweld y pwrpas o wneud marciau ac maent yn gwneud synnwyr o'u hysgrifen gynnar yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau'n annibynnol ac mewn ffurf eithaf adnabyddus.

Mae bron pob un plentyn yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda drwy ddefnydd ymarferol o rif, drwy ddefnyddio geirfa fathemategol fel 'llai na' neu 'fwy na', 'hir' a 'hirach' a thrwy ddefnyddio siapiau dau a thri dimensiwn. Mae bron pob un plentyn yn medru grwpio gwrthrychau yn ôl lliw.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio offer electronig yn dda. Maent yn defnyddio'r cyfrifiadur yn hyderus drwy reoli'r cyfarpar priodol. Mae bron pob un plentyn yn creu lluniau diddorol gyda phaent a chyfranogi'n frwdfrydig â diddordeb mewn gweithgareddau allanol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o ganeuon, hwiangerddi Cymreig a gweddïau, gan eu canu gyda brwdfrydedd.

Mae bron pob un plentyn yn dangos diddordeb llawn ym mhob gweithgaredd ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau sylweddol o amser. Maent yn gwneud penderfyniadau a gweithio'n annibynnol yn dda tu fewn yr adeilad ac yn defnyddio'r

cyfarpar sydd ar gael yn dda yn yr ardal allanol. Mae bron pob un plentyn yn ymgymryd yn frwdfrydig i'r gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer, sy'n datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus.

**Lles: Da**

Mae gan bron pob un plentyn ddealltwriaeth briodol, yn unol â'u hoedran, o sut gallant gadw'n iach. Gwyddant, er enghraifft, pryd mae angen iddynt olchi eu dwylo gan wneud hyn heb fawr o ymyrraeth. Mae gan bron pob un plentyn ddealltwriaeth gadarn bod deiet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau.

Mae agwedd bron pob un plentyn at eu dysgu yn dda. Maent yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn y gweithgareddau a chynllunnir ar eu cyfer. Mae bron pob un plentyn yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau arwyddocaol o amser ac yn gwneud penderfyniadau yn annibynnol.

Mae'r holl blant yn uniaethu â'i gilydd ac oedolion ac ymwelwyr yn dda. Maen nhw'n gwrtais ac yn ystyriol ac yn barod i rannu adnoddau. Mae'r holl blant yn cymryd rhan lawn ym mywyd a gweithgareddau'r cylch trwy gynnig syniadau ynglŷn â'u gwaith. Maent yn cymryd gyfleoedd gwerthfawr i awgrymu eu syniadau eu hun ac mae'r rhain, lle'n bosibl, yn cael eu cynnwys yn nhasgau a gweithgareddau'r plant.

Mae bron pob un plentyn â dealltwriaeth dda o'u cymuned ac maent yn trafod pobl eu cymuned yn effeithiol a gyda hyder.

Mae bron pob un plentyn yn hapus; maent yn teimlo eu bod yn derbyn gofal da ac maent yn rhydd o unrhyw ffurf o aflonyddwch.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Caiff y cwricwlwm ei gynllunio'n dda i ddiwallu athroniaeth cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac i gyflawni'r deilliannau a nodir yn nysgu'r plant. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y plant ac yn cynnwys cyfleoedd diddorol ar gyfer datblygiad medrau ar draws y cwricwlwm.

Gosodir amser pob bythefnos i'r staff gyfarfod i gynllunio'r cwricwlwm. Mae hyn yn darparu'r plant â gweithgareddau defnyddiol ac ysgogol. Mae'r cwricwlwm yn hyblyg, yn briodol ac yn gysylltiedig â diddordebau'r plant.

Darperir gweithgareddau da i'r plant i ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol o lythrennedd, rhifedd, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd, datblygiad corfforol a chreadigaeth. Agwedd effeithiol o brofiadau dysgu'r plant yw'r ddarpariaeth a wneir i'r plant i ddysgu'r iaith Gymraeg. Nid Cymraeg yw iaith naturiol y cyfathrebu i tua dau draean o'r plant. Fodd bynnag, trwy gyfleoedd cydlynus, mae'r staff yn siarad Cymraeg i'r plant yn gyson ac mae hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth dda o'r iaith. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth y plant yn dda ac mae'r ddarpariaeth o adnoddau technolegol sydd ar gael wedi ei gynllunio'n dda.

Mae gan blant cyfleoedd da i ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau sydd wedi cynllunio'n dda, sy'n canolbwyntio ar bob ardal dysgu yn eu tro.

Darperir cyfleoedd rheolaidd ac effeithiol i'r plant i ddysgu am eu hardal, hanes a diwylliant Cymru, fel, wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Darperir cyfleoedd da hefyd i'r plant i ddysgu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill, fel, drwy astudio'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali. Mae gweithgareddau tebyg yn helpu'r plant i ddatblygu dealltwriaeth da o'r byd ehangach a chodi'u hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang sy'n briodol i'w hoedran yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth bwrpasol yn cynnwys cyfleoedd i'r holl blant ddatblygu parch at ei gilydd; cyfleoedd i ffurfio perthynas dda a'i gilydd ac oedolion; a chyfleoedd iddynt fod yn oddefgar o'i gilydd.

Caiff yr holl blant gyfleoedd priodol yn yr ardal allanol helaeth i hau hadau, i ofalu am blanhigion ac ail-gylchu. Mae hyn yn dechrau eu deall am dyfiant planhigion a chynaladwyedd yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae gan y staff wybodaeth ymarferol dda o ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas bositif rhwng yr holl staff a'r plant.

Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel o'r plant ac mae'r disgwyliadau yma yn cael eu gwireddu yn ymarferol dda. Mae rôl weithredol gan y staff wrth gynllunio'r cwricwlwm a sicrheir hyn y defnydd gorau o'u harbenigedd. Wrth gyflwyno gweithgareddau ffocws, mae'r staff yn gwneud cyfeiriadau da a chyson tuag at amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant y weithgaredd.

Mae'r system o rannu dyletswyddau yn golygu bod gan staff wybodaeth fanwl o nifer fach o blant ac fel canlyniad yn ymwybodol iawn o'u cyflawniadau a'u cynnydd. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a'u cyfeirio gan oedolion. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu gweithgareddau diddorol ac ysgogol ar eu cyfer, sy'n herio nhw'n effeithiol i wella.

Mae'r staff yn modelu iaith yn effeithiol i lefelau datblygiad y plant ac yn defnyddio cwestiynu yn effeithiol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Mae safonau Cymraeg bron pob un o'r staff yn dda ac yn briodol i anghenion y cylch. Mae'r staff yn darparu amgylchedd ysgogol, tu fewn a thu allan, sy'n sicrhau'n llwyddiannus bod pob plentyn yn cymryd rhan ac yn mwynhau.

Mae'r gweithdrefnau asesu a chofnodi cyflawniadau'r plant yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Maent yn cael i'w trosglwyddo ymlaen yn effeithiol i'r rhieni ac ysgol nesaf y plentyn. Fodd bynnag, nid yw'r asesiadau yn arwain yn uniongyrchol i dargedau plant unigol a'r camau nesaf yn eu haddysg. Mae cofnodion o gyflawniadau'r plant ar gael i rieni ar unrhyw amser.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth y cylch ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant yn dda. Mae bron pob plentyn yn mwynhau eu hamser yn y cylch. Wrth gyrraedd maen nhw'n dangos

synnwyr o ddisgwyliad ac yn awyddus i gymryd rhan. Maent yn ymgymryd yn frwdfrydig â'r gweithgareddau a osodir ar eu cyfer. Mae'r cwricwlwm eang, sy'n cynnwys ymwelwyr ac ymweliadau, yn datblygu ac yn ymestyn profiadau'r plant yn dda.

Mae'r gwaith dilynol yn y dosbarth yn dangos yr ystod eang o brofiadau sy'n codi o'u gweithgareddau. Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr i'r cylch yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'u cymuned yn effeithiol.

Mae darpariaeth dda gan y cylch ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch, parch a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir yn cael eu meithrin drwy weithgareddau dyddiol ac yn cael eu derbyn yn ddiau. Mae bron pob plentyn yn gwybod, deall ac yn derbyn y safonau cymdeithasol o gyd-fyw, rhannu a derbyn barn eraill fel aelodau o gymdeithas. Mae plant unigol, trwy'r system 'helpwr heddiw', yn derbyn cyfrifoldebau penodol, fel tacluso adnoddau a chyfarpar, sy'n datblygu eu hunan barch. Mae'r cylch yn uned drefnus lle mae plant yn parchu ei gilydd ac maen nhw, yn eu tro, yn cael eu gwerthfawrogi gan y staff.

Mae datblygiad diwylliannol y plant yn dda, sy'n cynnwys arferion a thraddodiadau Cymreig ac yn ymestyn i ddiwylliannau eraill wrth i'r plant ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali.

Mae staff y cylch yn wyliadwrus wrth nodi plant sydd angen cymorth arbenigol. Maent yn gwneud defnydd o gymorth ac arweiniad proffesiynol yn effeithiol pan bo'r angen.

Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd a phriodol. Ymdrinir y staff yn rheolaidd ag asesiadau risg trwyadl.

Mae gan y cylch bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae'r cylch yn ddiogel, lle mae drws y fynedfa yn cael ei folltio a dim ond aelod o staff sy'n eu hagor, felly, nid oes neb yn medru dod i mewn na'r un plentyn yn medru gadael heb gwmni. Mae gofal da yn cael ei gymryd wrth i'r plant gael eu casglu er mwyn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu ofalwr adnabyddus.

Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau bod unrhyw blentyn sy'n cael ei amau o fod angen cymorth ychwanegol yn cael ei nodi a bod cynnydd yn cael ei fonitro'n agos. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plentyn tebyg. Defnyddir asiantaethau allanol a darperir cefnogaeth os oes angen. Ar hyn o bryd, mae dau blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r cylch, drwy y gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a mabwysiadir gan y staff yn hyrwyddo ethos positif iawn. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael i'w adnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm eang sy'n cynnwys ardal allanol helaeth.

Mae'r awyrgylch cartrefol a chyfeillgarwch y staff yn sicrhau bod agwedd oddefgar yn treiddio drwy'r cylch. Mae'r cylch yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol sydd yn dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae pob plentyn yn mwynhau cyfleoedd cyfartal.

Mae gan staff y cylch cymwysterau a phrofiad da ac mae cymhareb oedolyn i blentyn ffafriol iawn. Defnyddir arbenigedd staff yn dda wrth gynllunio ac wrth oruchwylio gweithgareddau. Mae'r cylch yn defnyddio'i adnoddau yn dda iawn i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o annibyniaeth a chyfrifoldeb. Mae'r adeilad a'r ardal allanol yn cael eu defnyddio'n effeithiol iawn ac mae'r amgylchedd yn ysgogol a heriol i'r plant.

Defnyddir yr ardal leol yn effeithiol a chyson trwy droeon i'r pentref a'r traeth ac ymweliadau i fusnesau cyfagos. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn ac yn cyd-weithio'n dda fel tîm gan rannu gwerthoedd, amcanion a nodau. Mae'r arweinyddion yn cynnwys yr holl staff yn y cynllunio sy'n sicrhau'r defnydd gorau o'u harbenigedd. Mae'r arweinyddion yn cyfrannu'n weithredol drwy roi cyfarwyddiadau clir a thrwy derbyn cyngor wrth asiantaethau allanol er mwyn gwella. Ceir yma ethos positif a gweledigaeth i ddarparu'r profiadau gorau posibl i'r plant. Mae'r arweinyddion a'r holl staff yn canolbwyntio'n effeithiol ar anghenion pob plentyn.

Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol sydd yn effeithio'n dda ar ansawdd y ddarpariaeth. Ceir cysylltiadau effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Maent yn cael eu hysbysu'n dda o gyflawniad a chynnydd eu plant sy'n eu helpu i gefnogi dysgu eu plant.

Mae'r arweinyddion yn rhoi ystyriaeth lawn i ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol ac yn cwrdd â gofynion cyfreithiol yn llawn. Mae'r pwyllgor rheoli yn cwrdd yn rheolaidd ac mae'r pwyllgor yn monitro a herio'r arweinyddiaeth yn effeithiol.

Mae cynlluniau strategol yn eu lle gan yr arweinyddion; fodd bynnag, nid ydy'r systemau hunan arfarnu yn arwain at gynlluniau hir dymor effeithiol, sy'n nodi llinynnau amser heriol a phriodol.

Mae'r cylch wedi rhoi ystyriaeth dda o flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r cylch yn hunan arfarniadol ac yn nodi meysydd i wella yn effeithiol. Maent yn cael i weithredu'n dda er lles y plant. Mae'r arweinyddion yn trafod y broses yn

hyderus, gyda dealltwriaeth a chlirdeb ac maent yn dangos bod y broses wedi bod yn effeithiol iawn dros y flwyddyn ddiwethaf.

Nodir ardaloedd i wella ac mae’r cylch yn blaenoriaethu rhain yn effeithlon.  Mae’r cynllunio yn weithredol, fodd bynnag, nid yw’n amlygu targedau hir dymor y cylch gyda digon o fanylder.  Maent yn cynnwys myfyrio ac ail-ymweld â chynnwys y dysgu, datblygu’r defnydd o’r Gymraeg a gwella’r amgylchedd dysgu.  Mae cynlluniau’r dyfodol yn ffocysu ar hyrwyddo amrywiaeth a darparu fwy o gyfleoedd artistig i’r plant.

Mae’r staff yn gwneud defnydd da o gyfleoedd hyfforddi a phrofiadau dysgu proffesiynol, sy’n cynnwys cymwysterau galwedigaethol, sy’n cael effaith adeiladol ar ddysgu a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae’r rhieni a’r gofalwyr, yn yr atebion i’r holiaduron ac mewn trafodaethau, yn mynegi eu boddhad â’r cylch.  Maent yn gwerthfawrogi’r safonau gofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael.  Maent yn gwerthfawrogi’r polisi drws agored a’r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â’r staff.

Erbyn i’r plant adael y cylch, mae’r rhieni oll yn teimlo eu bod wedi’u paratoi’n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.  Mae’r cysylltiadau gyda’r ysgol leol, y Mudiad Meithrin a’r awdurdod lleol yn dda.

Mae’r cylch yn elwa’n fawr o’r gefnogaeth a ddarperir gan staff yr awdurdod lleol a’r Mudiad Meithrin.  Mae’r cyngor a’r awgrymiadau wedi bod yn gymorth i symud y cylch ymlaen ac wedi cyfrannu at y safonau da, darpariaeth effeithiol ac arweinyddiaeth pwrpasol.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae staff y cylch yn addysgu’n effeithiol ac yn cyd-weithio’n dda.  Caiff y cynllunio ei wneud ar y cyd ac fel canlyniad gwneir y mwyaf o arbenigedd unigolion i elwa pob plentyn.

Mae adnoddau da iawn gan y cylch ac mae’r adnoddau yn cael eu defnyddio’n effeithiol iawn i ddarparu amcanion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.  Hefyd, mae’r adnoddau o fewn cyrraedd y plant sy’n annog annibyniaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu.

Mae’r cylch yn darparu profiadau allanol da, sy’n cael eu cynllunio’n effeithiol iawn.  Mae’r arweinyddion yn arwain yn effeithlon a defnyddio asiantaethau cynorthwyol yn bwrpasol.

Mae’r cylch yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Ymatebodd 15 o rieni a gofalwyr i’r holiaduron.

Mae pob rhiant a gofalwr a ymatebodd i wybod am arferion y cylch yn cytuno’n gryf a chytuno fod:

- y plant yn ymddwyn yn dda;
- eu plant yn ddiogel;
- eu plant yn cael eu hannog i gadw’n iach a chymryd ymarfer corff rheolaidd; a
- bod eu plant wedi paratoi’n dda i symud ymlaen i’r ysgol.

Mae bron pob un o’r rhieni a’r gofalwyr yn nodi fod:

- cymorth i’r plant i ymgartrefu'n dda;
- amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau;
- eu plant yn hoffi'r cylch;
- eu plant yn gwneud cynnydd da;
- yr addysgu'n dda;
- nhw'n deall trefn y cylch ar gyfer delio â chwynion; ac
- mae'r cylch yn cael ei redeg yn dda.

Mae’r rhan fwyaf o rieni a gofalwyr yn teimlo fod:

- y cylch yn cael ei redeg yn dda;
- nhw'n teimlo’n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch; a
- fod cymorth ychwanegol priodol ar gael os oes angen.

Mae llawer o rieni a gofalwyr yn nodi fod:

- eu bod nhw’n cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant.

Mae’r ymatebion yma’n cymharu’n ffafriol gyda chymariaethau meincnodol cenedlaethol.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae bron pob plentyn yn frwdfrydig wrth iddynt gyrraedd a chwrdd â’u cyfoedion. Mae bron pob un ohonynt yn hunan hyderus wrth wybod eu bod yn cael eu cefnogi’n dda a bod ganddynt ddarpariaeth o dasgau diddorol iawn.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |